# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG DYDD LLUN, 7 MEHEFIN 2021

**Yn bresennol:** **Cynghorwyr** : Anwen Hughes (Cadeirydd), Steve Collings ac Edgar Owen

**Swyddogion:** Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan M Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri H Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

Arsylwi: Y Cynghorydd Elin W Jones

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan yr ymgeisydd Mr J Rowley

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

a) **Adroddiad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer The Venu, Pwllheli, Gwynedd. Gwnaed y cais mewn perthynas â gwerthu alcohol, cerddoriaeth byw ar yr eiddo, cerddoriaeth wedi ei recordio ar ac oddi ar yr eiddo, dangos chwaraeon byw a lluniaeth hwyr yn nos.

Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol. Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ac amlygwyd y byddai'r mesurau hyn yn cael eu cynnwys ar y drwydded.

Tynnwyd sylw at yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Nid oedd gan Cyngor Tref Pwllheli wrthwynebiad i'r cais. Nodwyd bod yr ymgeisydd wedi cytuno i gynnwys amodau ychwanegol mewn perthynas a Theledu Cylch Cyfyng (TCC) ar gais yr Heddlu. Ni dderbyniwyd sylwadau na gwrthwynebiadau pellach. Ategwyd bod y cais yn adlewyrchu'r hyn oedd wedi ei ganiatáu ar y drwydded eiddo oedd yn bodoli yn flaenorol.

Argymhellwyd fod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r cais yn unol â'r hyn a gytunwyd gyda'r Heddlu a gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu
- Gwahodd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoi cyfle i'r ymgynghorai gyflwyno eu sylwadau
- Gwahodd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â phwysleisio'r angen i sicrhau bod recordiadau TCC yn cael eu cadw am 30 diwrnod, nododd y Swyddog Trwyddedu bod hyn yn rhan o argymhellion yr Heddlu - yr ymgeisydd a staff yr eiddo i dderbyn hyfforddiant ar sut i weithredu TCC sut i recordio a llawr lwytho yn effeithiol. Ategwyd bod yr ymgeisydd wedi cytuno i gydymffurfio yn llawn a'r gofynion hyn.

Nid oedd yr ymgeisydd yn bresennol i ymhelaethu ar y cais.

Nid oedd Heddlu Gogledd Cymru yn bresennol i ymhelaethu ar sylwadau a gyflwynwyd ganddynt.

d) Ymneilltuodd y Rheolwr Trwyddedu o'r cyfarfod tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

dd) Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb ac adroddiad y Swyddog Trwyddedu Ystyriwyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Roedd yr holl ystyriaethau yn cael eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

i. Atal trosedd ac anhrefn

ii. Atal niwsans cyhoeddus

iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus

iv. Gwarchod plant rhag niwed

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais**

**Rhoddir trwydded fel a ganlyn:**

1. **Oriau agor: Sul-Sadwrn 08:00-03:00**
2. **Cerddoriaeth fyw tu mewn a thu allan: Sul-Sadwrn 08:00-02:45**
3. **Cerddoriaeth wedi ei recordio tu mewn a thu allan: Sul-Sadwrn 08:00-02:45**
4. **Digwyddiadau chwaraeon dan do: Sul-Sadwrn 08:00-23:45**
5. **Perfformiadau dawns tu mewn a thu allan: Sul-Sadwrn 08:00-02:45**
6. **Lluniaeth hwyr nos: Sul-Sadwrn 23:00-02:30**
7. **Cyflenwi alcohol i yfed ar ac oddi ar yr eiddo: Sul-Sadwrn 08:00-02:30**

8. **Ymgorfforir y materion a ragnodwyd yn yr Atodlen Weithredol (Rhan M) o'r cais fel amodau ar y drwydded.**
9. **Ymgorfforir yr amodau drafft a argymhellwyd gan Heddlu Gogledd Cymru mewn perthynas â theledu cylch cyfyng (TCC) fel amodau ar y drwydded.**

Diolchwyd i bawb am gyflwyno sylwadau ar y cais.

Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i'r holl sylwadau.

Wrth ystyried sylwadau'r Heddlu, canfuwyd nad oedd y sylwadau yn gwrthwynebu'r cais ond yn argymell cynnwys amodau safonol ychwanegol mewn perthynas â TCC. Ystyriwyd bod yr amodau hyn yn cael eu cynnig er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Nodwyd bod yr ymgeisydd yn cefnogi'r argymhellion. O dan yr amgylchiadau, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cais am drwydded, gan gynnwys yr amodau arfaethedig gan yr Heddlu, yn gydnaws â'r amcanion trwyddedu. Caniatawyd y cais.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd yn bresennol. Ategwyd bod gan bob parti i'r cais yr hawl i gyflwyno apêl yn Llys Ynadon Caernarfon yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Dylid cyfeirio unrhyw apêl o'r fath drwy roi rhybudd o apêl i'r Prif Weithredwr, Llys Ynadon Llandudno, Llandudno, o fewn cyfnod o 21 diwrnod gan gychwyn â'r dyddiad y bydd yr apelydd yn derbyn llythyr (neu gopi ohono) yn cadarnhau'r penderfyniad.

Dechreuodd y cyfarfod am 11.30 y.b. a daeth i ben am 11.55 y.b.

**CADEIRYDD**